MEALS ON WHEELS | PRYD AR GLUD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

E-bost: prydarglud@caerdydd.gov.uk

☎ 02920 537080

www.teleofalcaerdydd.co.uk/pryd-ar-glud

CARDIFF
CAERDYDD





## Mwy na dim ond pryd o fwyd

Bydd ein tîm cyfeillgar yn cludo prydau gyda gofal a bydd yn hapus i roi'r bwyd ar blât i chi. Nid dim ond gwasanaeth cludo bwyd yw hwn; mae'n cynnig rhyngweithio cymdeithasol a gwiriad lles hefyd.

Os oes gan ein gyrwyr unrhyw bryderon efallai y byddant yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Gwasanaeth Byw'n Annibynnol Cyngor Caerdydd a all helpu gyda phob math o anghenion. Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys yr heddlu, Age Connects a Gofal a Thrwsio.

**Mae 94% o'n holl ymatebwyr yn teimlo'n fwy diogel yn gwybod bod rhywun yn cadw llygad arnynt.**

MEALS ON WHEELS | PRYD AR GLUD

Mae'r gwasanaeth fforddiadwy hwn yn gwasanaethu pobl o **BOB** oed, a gallwch archebu prydau unwaith, dros dro, neu mor aml ag y dymunwch eu derbyn.

Nid dim ond gwasanaeth cludo bwyd yw hwn; mae'n cynnig rhyngweithio cymdeithasol a gwiriad lles hefyd.

Os ydych yn bodloni un o'r meini prawf canlynol, gallwch fanteisio ar y gwasanaeth:

- Rydych yn cael trafferth paratoi pryd yn ddiogel
- Nid ydych yn gallu siopa am fwyd
- Rydych yn agored i hunan-esgeulustod neu'n bwyta deiet amhriodol
- Mae gennych anabledd meddwl neu gorfforol
- Mae angen cymorth arnoch oherwydd eich bod yn gwella yn dilyn salwch neu gyfnod yn yr ysbyty, salwch neu wyliau gofalwr, neu brofedigaeth.

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING
0 1 2 3 4 **5**
DA IAWN
VERY GOOD

**E-bost: prydarglud@caerdydd.gov.uk**

# EIN STORI



## Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22!

Cyhoeddon ni ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf yn 2021 i dynnu sylw at lwyddiant y gwasanaeth ac eleni rydym am barhau i roi gwybod i'n cwsmeriaid beth rydyn ni wedi'i wneud yn dda, yr hyn rydyn ni'n bwriadu ei wella a'r hyn mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud!

Mae cyflawniadau'r gwasanaeth yn adlewyrchiad o'n tîm anhygoel ac ni fyddem wedi gallu gwneud hyn hebddynt.

Teimlwn yn falch o allu parhau i ddarparu'r gwasanaeth a gynigir gan y Cyngor a byddwn yn parhau i dyfu ac ehangu ymhell yn y dyfodol!

### Ynglŷn â'n Gwasanaeth

Sefydlwyd Gwasanaeth Pryd ar Glud Cyngor Caerdydd yn wreiddiol ym 1974 ac fe'i cefnogwyd gan Wasanaeth Gwirfoddolwyr Brenhinol y Merched (sef y WRVS). Dathlodd y gwasanaeth ei 45 mlynedd o wasanaeth ym mis Medi 2019.

Ail-frandwyd y gwasanaeth ym mis Ionawr 2017 gan ddarparu prydau bwyd dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau'r banc. Erbyn mis Rhagfyr 2017 bu modd i ni ddosbarthu prydau bwyd ar Ddydd Gŵyl San Steffan a Dydd Calan am y tro cyntaf ers sefydlu'r gwasanaeth.

Erbyn mis Ebrill 2018 penderfynom estyn a gweithredu'r gwasanaeth i 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn heb unrhyw eithriadau.

Cost y gwasanaeth yng Nghaerdydd ar 1 Ebrill 2022 yw £4.10 am brif bryd a £4.74 gyda phwdin. Gweithredir y gwasanaeth o Ganolfan Ddydd y Tyllgoed lle'r ydym yn cyflogi 20 o bobl leol ac mae gennym fflyd o 11 cerbyd i ddosbarthu prydau bwyd ar draws y ddinas **AM DDIM** i'n cwsmeriaid.

Mae ein bwyd maethlon gan Apetito yn cael ei storio ar ein safle mewn rhewgelloedd. Mae hyn yn golygu y gallwn gynnig amrywiaeth eang gan gynnwys; bwyd halal, kosher, Caribïaidd, isel mewn siwgr, di-glwten, llysieuol a mathau amrywiol o fwydydd stwnsh i'n cleientiaid.

Bob dydd, caiff prydau bwyd eu dewis o'r rhewgell a'u coginio mewn poptai mawr, cyn eu rhoi mewn blychau poeth ar gyfer pob rownd ddosbarthu. Mae'r blychau poeth hyn yn cael eu plygio i mewn i ffynhonnell bŵer y car er mwyn cadw'r bwyd yn boeth. Mae'r tîm yn dosbarthu prydau rhwng 11.30am a 2.00pm.

# EIN CYFLAWNIADAU

Mae Pryd ar Glud wedi parhau i dyfu ac roedd nifer y cwsmeriaid cyffredinol sy'n derbyn pryd o fwyd 7 diwrnod yr wythnos wedi cynyddu. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, darparodd y tîm **90,025 o brydau poeth** ar draws y ddinas!

Bu cynnydd o **10%** yng nghyfanswm nifer y cwsmeriaid sy'n derbyn Pryd ar Glud yn 2021/22 o'i gymharu â 2020/21.

Mae **70%** o'n cwsmeriaid bellach yn derbyn ein prydau 7 diwrnod yr wythnos!

Mae **90,025** o brydau bwyd wedi'u dosbarthu ers Ebrill 2021.

Mae **74%** o'n cwsmeriaid yn derbyn prydau bwyd dros y penwythnos.






Ar gyfartaledd cafodd **3,767** o brydau bwyd eu danfon yn ystod yr wythnos a **2,878** yn ystod y penwythnos.

**Mae Pryd ar Glud yn danfon prydau maethlon poeth ar draws y ddinas 7 diwrnod yr wythnos, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn heb unrhyw eithriadau.**

Gan fod llawer o bobl hŷn ac agored i niwed heb unrhyw anwyliaid gerllaw i dreulio'r gwyliau gyda nhw, mae ein gwasanaeth gwyliau banc hyd yn oed yn fwy hanfodol. Eleni dosbarthwyd 593 o brydau bwyd drwy gydol Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig a Diwrnod San Steffan gyda mwy na 25 % o'r rheiny yn cael eu dosbarthu ar Ddydd Nadolig yn unig.




## CWESTIYNAU CYFFREDIN

### *Pryd ac i ble rydych chi'n cludo'r bwyd?*

Mae prydau poeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 11.30am a 2.00pm. Mae ein gwasanaeth Pryd ar Glud yn rhedeg ledled Caerdydd gyfan a Dwyrain y Fro a does **DIM COSTAU** danfon.

### *Oes rhaid i mi gael prydau bob dydd o'r wythnos?*


Na – caiff y cwsmeriaid benderfynu  Gallwn eu dosbarthu gydol yr wythnos neu ar ddiwrnodau penodol.

### *Beth os ydw i'n newid fy meddwl ac eisiau cynyddu neu leihau fy mhrydau bwyd?*

Os ydych eisiau atal y gwasanaeth am gyfnod, hyd yn oed am ddim ond diwrnod, ffoniwch ni ar 02920 537080.  Os rhowch chi neu'ch perthynas agosaf wybod i ni a chynghori'r tîm gofal cwsmeriaid erbyn 10am y diwrnod cynt, gallwn newid eich cais. Os na chanslwch bryd o fwyd a ninnau'n ei ddanfon, bydd tâl yn cael ei godi arnoch.

## A WYDDECH CHI?

Mae **59%** o'n cwsmeriaid yn fenywod



Mae **41%** o'n cwsmeriaid rhwng 86 a 95 oed!




Mae ein prydau bwyd yn rhoi traean o'ch maetholion dyddiol i chi



# MESUR EIN HEFFAITH

**Mae Pryd ar Glud yn cynnal arolwg cynhwysfawr lle gofynnwn i'n cwsmeriaid a yw ein gwasanaethau wedi eu helpu i aros yn hapus, yn iach ac yn annibynnol. Eleni cawsom 121 o ymatebion gydag adborth anhygoel yn dangos pa mor bwysig yw'r gwasanaethau hyn i'n cwsmeriaid, teuluoedd ac i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol hefyd.**

**O ganlyniad i'n gwasanaeth, mae ein cwsmeriaid wedi dweud wrthym:**




Gofynnom i'n cwsmeriaid beth oedd eu barn ar ansawdd ein gwasanaeth, a dyma beth ddwedon nhw wrthym:

Ansawdd cyffredinol y prif bryd = **98 %**

Ansawdd cyffredinol y pwdin = **98 %**

Amrywiaeth dda o fwyd ar gael = **97 %**

Wedi'u prisio'n deg = **90 %**



**E-bost: prydarglud@caerdydd.gov.uk**



## SYLWADAU CWSMERIAID

*"Gwerth da am arian. Rydyn ni'n gweld wyneb cyfeillgar, gwên ac yn cael sgwrs gyflym i wneud yn siŵr ein bod ni'n iawn."*

*"Mae'n fy helpu i osgoi llawer o boen."*

*"Roedd y cinio'n flasus, llawn blas ac roedd y sbwng lemwn a'r cwstard yn flasus. Mor flasus."*

*"Alla i ddim diolch digon i chi, byddwn yn argymell y gwasanaeth i fy holl ffrindiau a theulu"*

## CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Mae Pryd ar Glud yn edrych yn barhaus ar yr hyn y gallwn ei wneud i wella'r gwasanaeth.

Byddwn yn monitro ac yn adolygu'r opsiynau bwydlenni presennol i weld pa anghenion dietegol ychwanegol neu opsiynau bwyd ychwanegol y gallwn eu cynnwys yn y bwydlenni tymhorol. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch pa fwyd yr hoffech ei weld ar ein bwydlen yn y dyfodol, cysylltwch â'r tîm i roi gwybod.

Dywedodd **41%** o'n cwsmeriaid a holwyd y bydden nhw'n ystyried archebu Pecyn Te pe baen ni'n ehangu ein gwasanaeth. Eleni byddwn yn ystyried y cyfle hwn i weld a allwn gynnig Pecynnau Te i'n cwsmeriaid yn y dyfodol.

## DIOGELWCH BWYD




Rydym yn prynu prydau bwyd wedi'u rhewi o safon uchel gan ein cyflenwr, apetito. Mae'r prydau hyn yn cael eu rhewi ac yn cael eu cynhesu yng Nghanolfan Dydd y Tyllgoed. Cant eu cadw mewn bocsys poeth neu fagiau cludo wedi'u cynhesu ar y daith i'n cwsmeriaid.

Fel rhan o'n prosesau Diogelwch Bwyd llym, mae aelodau ein tîm yn cynnal nifer o archwiliadau monitro dyddiol ac yn derbyn hyfforddiant er mwyn deall pwysigrwydd y gwiriadau hyn.

Maent hefyd wedi cael eu hyfforddi ynghylch pa gamau sy'n rhaid iddynt eu cymryd os yw'r darlleniad y tu allan i derfynau derbyniol y gwiriad. Archwilir y gwiriadau hyn yn rheolaidd i sicrhau bod ein gwasanaeth o'r safon uchaf.

# Y GWASANAETHAU YCHWANEGOL A GYNIGIWN

Teleofal Caerdydd

Gwasanaeth Ymateb a Wardeiniaid



**TELEOFAL CAERDYDD – yn eich helpu i aros yn annibynnol yn eich cartref**

Pan ddewch yn gwsmer Teleofal Caerdydd, cewch larwm crogdlws ac uned ymateb y gallwch eu defnyddio i gysylltu â ni os ydych yn cael trafferthion.

Mae ein gwasanaeth Larwm Teleofal yn helpu llawer o gyplau, a'r bobl hynny sy'n byw ar eu pen eu hunain. Mae symlrwydd wrth galon ein gwasanaeth larwm Teleofal 24-7, gan alluogi cwsmeriaid ledled Caerdydd i fod yn hyderus ac yn ddiogel yn eu cartrefi.

Teleofal Caerdydd
Telecare Cardiff

Mae gennym dîm unigryw o Wardeiniaid Symudol cymwys iawn all eich helpu gyda'r un offer codi ac mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ei ddefnyddio.

Boed yn berson hŷn, agored i niwed neu anabl, gall y Wardeiniaid Symudol ddod i'ch helpu'n uniongyrchol – gallant eich codi ar ôl cwympo, rhoi cymorth cyntaf neu aros gyda chi nes i gymorth ychwanegol gyrraedd, unrhyw le yn y ddinas, 24 awr y dydd, 365 diwrnod yr wythnos.




## Sut mae'n gweithio?

Drwy bwyso'r botwm ar eich crogdlws neu uned ymateb byddwch yn cysylltu'n uniongyrchol â'n tîm cyfeillgar a fydd yn siarad â chi drwy'r seinydd ar yr uned. Bydd y tîm yn mynd ati ar unwaith i'ch helpu, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Gallai hyn gynnwys cysylltu ag aelod o'r teulu, meddyg, gofalwr, neu'r gwasanaethau brys.

Mae Teleofal Caerdydd yn fwy na larwm ar wasgiad botwm. Mae modd rhoi synwyryddion ychwanegol ym mhob rhan o'r cartref sy'n golygu y bydd y gwasanaeth bob amser yn bodloni eich anghenion. Siaradwch â'r tîm am y pecynnau a synwyryddion ychwanegol sydd ar gael.

## Faint mae Teleofal Caerdydd yn ei gostio?

Mae Teleofal Caerdydd yn un o'r gwasanaethau gwerth gorau o'i fath yng Nghymru. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dewis y pecyn sydd fwyaf addas i chi a rhoi galwad i ni. Fe wnawn ni bopeth arall.

### PECYN 1: GWASANAETH CYSWLLT
Dim ond £2.62 yr wythnos

Am ddim ond £2.62 yr wythnos gallwch gofrestru i gael cymorth 24 awr trwy bwyso botwm. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys ymateb cyflym i unrhyw alwad brys ar unrhyw adeg yn ystod y dydd neu'r nos. Bydd y tîm yn gallu cysylltu â'ch perthynas, eich meddyg, eich gofalwr neu'r gwasanaethau brys ar eich rhan.

*Gallai costau gosod ac offer fod yn berthnasol, yn amodol ar Delerau ac Amodau.*



### PECYN 2: GWASANAETH CYSWLLT A WARDEN SYMUDOL
Dim ond £5.42 yr wythnos

Dim ond £5.42 yr wythnos yw cost ein gwasanaeth mwyaf poblogaidd. Am y pris hwn cewch gymorth llawn ein tîm cyswllt a hefyd y Wardeiniaid Symudol sydd wedi'u hyfforddi'n llawn ar alw – 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y daw ein Warden Symudol unigryw yn uniongyrchol i'ch cartref i'ch helpu.

*Gallai costau gosod ac offer fod yn berthnasol, yn amodol ar Delerau ac Amodau.*






Os nad yw cwsmer yn gallu agor eu drws i ni, os oes Cell Allweddi (Keysafe) yn yr eiddo gall y gyrwyr ei defnyddio i fynd i'r eiddo. Bocs metel, bychan a chadarn yw'r Cell Allweddi, a osodir y tu allan i'ch cartref ac a ddefnyddir i storio allwedd sbâr. Dim ond drwy ddefnyddio cod personol y gallwch gael at yr allwedd. Mae Cell Allweddi yn ddefnyddiol i bobl a allai anghofio neu golli eu allweddi, ac i bobl sydd ag ymwelwyr rheolaidd y gallai fod angen mynd i'r eiddo arnynt, e.e. gyrwyr Pryd ar Glud.

Os hoffech gael Cell Allweddi, cysylltwch â'n tîm Teleofal Caerdydd i drafod ar 02920 537080.

| | |
|---|---|
| Mae **90%** | o'n holl ymatebwyr yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gânt gan ganolfan fonitro Teleofal |
| Mae **80%** | o'n holl ymatebwyr yn fodlon iawn ar gyflymder yr ymateb gan y Tîm Ymateb Symudol |
| Mae **89%** | o'n hymatebwyr yn fodlon iawn bod y staff ar y Tîm Ymateb Symudol yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar |

MEALS ON WHEELS | PRYD AR GLUD

## Manylion Cyswllt:

Mae'r swyddfa Pryd ar Glud ar agor
**Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am - 4.30pm**
**Dydd Sadwrn a dydd Sul, 8am - 2pm**

**E-bost: prydarglud@caerdydd.gov.uk**

**☎ 02920 537080**

Gweler y wefan am fwy o wybodaeth:
**www.teleofalcaerdydd.co.uk/pryd-ar-glud**

CARDIFF
CAERDYDD